# Ysgol y Dderwen

# Polisi Atal Bwlio

## Polisi atal-bwlio

Fel y nodwyd ym mholisi ymddygiad/disgyblaeth yr ysgol, y mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch ddiogel a hynaws. Ein bwriad yn yr ysgol hon yw creu hinsawdd lle na fydd ymddygiad annerbyniol/bwlio'n cael ei ddioddef o gwbl. Byddwn yn gweithio tuag at ddileu pob ffurf ohono drwy ennyn cydweithrediad llwyr y disgyblion, y staff y rhieni a'r llywodraethwyr.

### Beth yw bwlio?

Bwlio yw'r awydd bwriadol ac ymwybodol i niweidio, bygwth neu godi ofn ar rywun drwy air neu weithred.

Gall bwlio gymryd sawl ffurf –

- galw enwau
- tynnu wynebau neu syllu'n herfeiddiol ar rywun
- sibrwd neu ddweud straeon maleisus am rywun
- difrodi neu gymryd eiddo
- mynnu drwy fygwth
- ymosod yn gorfforol, cicio, pinsio, gwthio
- gwneud hwyl ar ben arall
- diarddel un aelod o'r grŵp

Dylai'r staff edrych allan am yr arwyddion canlynol oblegid fe allent ddynodi bod plentyn yn dioddef bwlio –

- dirywiad sydyn mewn gwaith ysgol
- absenoldebau cyson heb esboniadau
- osgoi mynd allan i chwarae
- am aros yng nghwmni oedolion o hyd
- achwyn pen neu fol tost yn gyson

Mae'n bwysig nodi **nad bwlio yw pob dadl ac anghydfod a gwyd yn achlysurol rhwng dau plentyn**

**Cynllun yr ysgol ar gyfer atal bwlio**

Bydd yr ysgol yn fwriadol yn mynd ati i wneud y canlynol:

- Cyfleu i'r disgyblion y bydd unrhyw achos o fwlio yn cael ei drin fel mater difrifol iawn ac y bydd sancsiynau neu gosb yn dilyn gweithred o'r fath.
- Annog y disgyblion i ddod a dweud am unrhyw achos o fwlio, boed yn ymwneud â hwy neu rywun arall. Eu cael i ddeall bod dweud yn weithred gyfrifol ar ei rhan ac y byddai peidio dweud yn dangos cefnogaeth i'r ymosodwr.
- Cyflwyno natur annerbyniol bwlio fel rhan o addysg bersonal a chymdeithasol (ABCh) y disgyblion.
- Sicrhau bod y staff yn gwybod sut i ymateb i sefyllfaoedd o fwlio a beth yw'r canllawiau ar gyfer delio ag achosion unigol.
- Sicrhau bod yr arolygaeth yn ddigonol yn ystod y cyfnodau pan fo llawer o symud yn mynd ymlaen.

**Delio ag achosion o fwlio**

Wrth ddelio ag unrhyw achos o fwlio dylid cofio pum cam.

1. Byddwch ar gael
2. Archwiliwch
3. Cofnodwch
4. Ymatebwch
5. Dilyniant

Bydd yr ysgol yn delio ag unrhyw achosion drwy:

- drafod gyda'r disgyblion wrth i faterion godi
- wahodd rhieni i drafod y mater os fydd angen

- roi cynhaliaeth i'r dioddefwr tra'n gweithio gyda'r ymosodwr er mwyn newid agwedd/ymddygiad
- gofnodi unrhyw ddigwyddiadau cyson

**Lledaenu'r polisi**

Ein bwriad yw sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymwybodol o'r polisi ac o'n bwriad i'w weithredu er mwyn sicrhau **na** fydd achosion o fwlio yn codi.

Bydd cyfeiriad at y polisi i'w weld yn Llawlyfr yr Ysgol.

**Adolygu a chloriannu**

Adolygir yn rheolaidd effeithiolrwydd y cynllun atal bwlio